## Defnyddio hen beli

Mae pobl yn defnyddio hen beli i wneud llawer o bethau.



Dyma lun o hen bêl fasged fel pot blodau.



Mae pobl yn paentio peli golff ac yna'n rhoi nhw yn yr ardd.



Mae pobl yn gwneud cas pensiliau allan o hen beli tenis.



Dyma lun torch peli tenis ar ddrws.



Breichled allan o hen bêl tennis sydd yn y llun yma.



Mae llygoden yn gallu cysgu mewn hen bêl.

## Cwestiynau:

**1. Mae'r pot blodau wedi cael ei wneud allan o. . .**

Dewiswch **un** ateb

1) pêl droed. ☐
2) pêl fas. ☐
3) pêl fasged. ☐
4) pêl rygbi. ☐

**2. Beth mae pobl wedi gwneud gyda'r peli golff?**

Dewiswch **un** ateb

1) gwisgo nhw ☐
2) paentio nhw ☐
3) taflu nhw ☐
4) rhoi nhw i'r ci ☐

**3. Beth allwch chi wneud o hen bêl tennis?**

Dewiswch **ddau** ateb

1) llyfr ☐
2) potel ddŵr ☐
3) cas pensiliau ☐
4) bwyd adar ☐
5) breichled ☐

# Mari yn y pwll peli

Dyma Mari. Mae Mari yn 6 oed. Mae ganddi wallt melyn, hir a chyrliog. Mae'n gwisgo sgert werdd gyda esgidiau coch.

Mae Mari yn teimlo'n hapus heddiw. Mae'n hapus achos mae hi'n cael mynd i barti Pen-blwydd Jac. Mae Jac yn 7 oed.

Yn y parti mae pwll peli.

"Hwrê!" gwedda Mari. Mae hi'n dwlu ar bwll peli. A'r peth nesaf, mae Mari'n cymryd naid enfawr mewn i'r pwll peli. Mae'r peli yn hedfan i bob man, dros y lle i gyd.

"Hwn yw'r parti gorau erioed!" meddai Mari'n wen o glust i glust.





**Cwestiynau:**

**1. Sut wallt sydd gan Mari?**

Dewiswch **ddau** ateb

1) brown
2) du
3) melyn
4) byr
5) hir

**2. Pwy sy'n dathlu Pen-blwydd?**

Dewiswch **un** ateb

1) Mari
2) Jim
3) Jac
4) Jên

**3. Mae Mari'n rhedeg mewn i'r pwll peli.**

Ydy'r frawddeg yma'n gywir neu anghywir?

Cywir

Anghywir

# Fflei y ci

Dyma Fflei y ci. Ci bach brown a du ydy Fflei. Dydy Fflei ddim yn hoffi ceir. Mae Fflei yn cyfarth yn gas wrth weld ceir.

Hoff beth Fflei ydy peli. Mae pêl las smotiog ganddi. Ei hoff bêl ydy un sy'n gwichian. Mae ganddi bob math o beli fel pêl i chwarae yn y dŵr, pêl i fynd i'r traeth a phêl i chwarae yn y parc.

Mae Miriam yn mynd a Fflei am dro bob dydd. Mae Miriam yn dda am chwarae gyda Fflei. Hoff gêm Miriam a Fflei ydy Miriam yn taflu'r bêl. Yna, mae Fflei yn nôl y bêl.





## Cwestiynau:

**1. Dydy Fflei y ci ddim yn hoffi . . .**

Dewiswch **un** ateb

1) cŵn eraill. ☐
2) plant. ☐
3) anifeiliaid. ☐
4) ceir. ☐

**2. Beth ydy hoff bêl Fflei?**

Dewiswch **un** ateb

1) pêl las smotiog ☐
2) pêl goch ☐
3) pêl sy'n gwichian ☐
4) pêl las streipiog ☐

**3. Beth mae Miriam yn gwneud yn y stori?**

Dewiswch **ddau** ateb

1) mynd a Fflei am dro ☐
2) rhoi bwyd i Fflei ☐
3) rhoi dŵr i Fflei ☐
4) chwarae gyda Fflei ☐
5) darllen stori i Fflei ☐

## Anifeiliaid sy'n cyrlio mewn i bêl



**Neidr filtroed**-Mae neidr filtroed yn gallu cyrlio mewn i belen. Pan mae'n meddwl ei bod mewn peryg mae hi'n rholio fyny i gadw'n ddiogel.

**Ci**-Weithiau mae ci yn cyrlio fyny wrth gysgu. Mae'r ci yn gwneud hyn os yw'n oer. Mae cyrlio mewn i bêl yn cadw gwres y corff i mewn.





**Draenog**-Mae'r draenog yn rholio mewn i belen bigog. Mae'n gwneud hyn os oes ofn arno. Mae anifail fel mochyn daear yn bwyta draenog.

**Peithon Pêl**-Mae'r peithon yma wedi cael ei enw am ei fod y yn cyrlio mewn i belen. Mae e'n gwneud hyn pan mae'n nerfus. Mae pen y peithon yn mynd i ganol y bêl ac yna mae e'n rholio i ffwrdd!



**Cwestiynau:**

1. **Pam fod y neidr filtroed yn cyrlio mewn i belen?**

Dewiswch **un** ateb

1) achos mae'n boeth ☐
2) achos mae'n bert ☐
3) i gadw'n gynnes ☐
4) i gadw'n ddiogel ☐

2. **Pa anifail sy'n gallu bwyta draenog?**

Dewiswch **un** ateb

1) mochyn cwta ☐
2) mochyn y coed ☐
3) mochyn daear ☐
4) mochyn du ☐

3. **Mae'r peithon yn rholio mewn i belen pan mae'n nerfus.**

Ydy'r frawddeg yma'n gywir neu anghywir?

Cywir ☐


Anghywir ☐

# Comedau

Peli o rew a llwch ydy comedau. Maen nhw'n teithio mewn llwybr siâp hirgrwn o amgylch yr haul. Orbit ydy'r enw ar y llwybr siâp hirgrwn yma. Mae orbit y gomed yn mynd â hi yn agos iawn at yr haul ac yna'n bell iawn i ffwrdd eto.



Mae'r comed yn gadael llwybr neu gynffon ar ei hôl. Weithiau, mae'n bosib gweld comed o'r ddaear. Mae'r llun yn dangos orbit y comed o amgylch yr haul.




Cwestiynau:

1. **Beth ydy comed?**

Dewiswch **un** ateb

1) yr haul ☐
2) y ddaear ☐
3) peli o rew a llwch ☐
4) peli o dywod a llwch ☐

2. **Mae'r orbit yn mynd â'r comed yn. . .**

Dewiswch **ddau** ateb:

1) agos at y ddaear ☐
2) agos at yr haul ☐
3) bell o'r lleuad ☐
4) bell o'r haul ☐
5) agos at blaned ☐

3. **Rydym yn gallu gweld comed o'r ddaear.**

Ydy'r frawddeg yma'n gywir neu anghywir?

Cywir ☐

Anghywir ☐

## Rysáit peli egni

**Cynhwysion:**

100g o resins

100g o syltanas

100g o eirinen sych/ prwnsen

100g o flawd almon

1 llwy de o sinamon



**Dull:**

1. Yn gyntaf, rhowch y cynhwysion i gyd mewn powlen a'u cymysgu (cadwch 50g o flawd almon tan gam rif 4.)
2. Rhowch y cynhwysion i gyd mewn prosesydd bwyd, a chymysgu tan yn llyfn.
3. Siapiwch y gymysgedd yn beli bach.
4. Rhowch weddill y blawd almon mewn powlen.
5. Rholiwch y peli yn y blawd almon i'w gorchuddio.

Cwestiynau:

1. **Pa gynhwysion sydd eu hangen?**

Dewiswch **ddau** ateb:

1) syltanas ☐
2) blawd codi ☐
3) siwgr ☐
4) menyn ☐
5) sinamon ☐

2. **Beth sydd angen ei wneud yn gyntaf?**

Dewiswch **un** ateb

1) rhoi popeth mewn i'r prosesydd bwyd ☐
2) gwneud peli bach ☐
3) rholio'r peli yn y blawd almon ☐
4) rhoi popeth i gyd mewn powlen ☐

3. **Mae angen gorchuddio'r peli gyda blawd llif.**

Ydy'r frawddeg yma'n gywir neu anghywir?

Cywir ☐

Anghywir ☐

## Anifeiliaid sy'n cyrlio mewn i bêl



**Corryn**-Mae coesau y pry cop neu'r corryn yn cyrlio fyny os ydy'r pry cop wedi marw. Mae'n gwneud iddo edrych fel pelen fach.

**Mochyn y coed**-Mae tri enw gwahanol gyda'r creadur hwn! Dyma nhw: pry lludw, mochyn coed neu gwrach y coed. Mae mochyn y Coed yn rholio mewn i belen os oes rhywbeth wedi codi ofn arno.



**Armadilo**—Dim ond un math arbennig o armadilo sy'n gallu cyrlio mewn i belen berffaith. Mae tu allan y bêl yn galed fel arfwisg i'r armadilo.





Dyma lun o'r armadilo fel pelen yn amddiffyn ei hun rhag crafangau'r llewod!

## Cwestiynau:

**1. Pa bryd mae coesau'r corryn yn cyrlio fyny?**

Dewiswch **un** ateb:

1) pan fydd o wedi dychryn ☐
2) pan fydd o'n oer ☐
3) pan mae o wedi marw ☐
4) pan mae o'n dawnsio ☐

**2. Pa enw arall sydd ar fochyn y coed?**

Dewiswch **ddau** ateb:

1) pry sidan ☐
2) pry lludw ☐
3) pry cop ☐
4) gwrach y coed ☐
5) gwrach y gwyll ☐

3. **Mae pob math o armadilo yn gallu cyrlio mewn i belen berffaith.**

Ydy'r frawddeg yma'n gywir neu anghywir?

Cywir ☐

Anghywir ☐

## Y glôb eira



- Sffêr tryloyw ydy glôb eira. Fel arfer, mae rhywbeth tu mewn i'r glôb.
- Enwau eraill ar gyfer y glôb eira ydy; cromen eira, storm eira, golygfa eira a glôb dŵr.
- Mae darnau bach gwyn, mân, mân i mewn yn y dŵr.
- Wrth ysgwyd y glôb eira mae'r darnau gwyn yn edrych fel eira yn chwyrlio a syrthio.
- Mae pobl yn meddwl bod y glôb eira wedi dod o Ffrainc yn gyntaf.
- Ers talwm roedd rhai pobl yn defnyddio'r glôb eira fel pwysau i ddal papur i lawr fel nad oedd y papur yn chwythu ffwrdd.



## Cwestiynau:

1. Pa enw arall sydd ar y glôb eira?

Dewiswch **ddau** ateb:

1) plu eira ☐
2) storm eira ☐
3) bwced dŵr ☐
4) glôb dŵr ☐
5) golygfa glaw ☐

**2. Beth sydd yn y dŵr?**

Dewiswch **un** ateb:

1) darnau o bapur ☐
2) darnau mawr, mawr ☐
3) darnau bach gwyn ☐
4) darnau o rew ☐

**3. Mae'r glôb eira wedi dod o'r Eidal yn gyntaf.**

*Ydy'r frawddeg yma'n gywir neu anghywir?*

Cywir ☐

Anghywir ☐